

MADE
CYMRU

ASTUDIAETH ACHOS



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Mae Tenneco yn un o brif ddylunwyr, gweithgynhyrchwyr a marchnatwyr cynhyrchion modurol ar gyfer offer gwreiddiol a chwsmeriaid ôl-farchnad yn y byd, gyda thua 78,000 o aelodau tîm yn gweithio mewn mwy na 300 o safleoedd ledled y byd.

Yn ddiweddar cwblhaodd Jonathan Caswell, Luc Saunders, Christian Sandry a Conor Protheroe o safle Merthyr Tudful eu cwrs Gwelliant Parhaus gyda Diwydiant 4.0 gyda MADE Cymru. Buom yn siarad â Jon Caswell am y cwrs.

Beth mae eich rôl yn ei olygu yn Tenneco?

Cefais secondiad yn ddiweddar o fod yn Arweinydd Tîm i Arweinydd Grŵp Cynhyrchu. Mae hyn yn golygu bod 3 Arweinydd Tîm a thua 50 o Aelodau Tîm a Weldwyr yn adrodd i mi. Mae'r rôl newydd yn gyfle da i mi, a chredaf fod cwblhau'r hyfforddiant Six Sigma yn llwyddiannus yn ffactor yn y penderfyniad i'm secondio i fod yn Arweinydd Grŵp.



Jon Caswell
Arweinydd Grŵp Cynhyrchu
Tenneco



Beth wnaeth i chi gofrestru ar gwrs Gwelliant Parhaus gyda Diwydiant 4.0 MADE Cymru? Beth oeddech chi'n gobeithio ei gael allan ohono?

Rydw i wastad yn awyddus i ddysgu; pan gynigiwyd cyfle i mi gofrestru ar gwrs MADE Cymru, fe'i cymerais. Mae gen i ddiddordeb mewn gwelliant parhaus ac roeddwn yn aml yn cyflawni prosiectau bach fel Arweinydd Tîm.





Beth oedd canlyniadau ac effaith derfynol eich prosiect?

Llwyddiant i gael gwared ar Wal o Ansawdd 100%, drwy leihau'n sylweddol y methiannau sy'n achosi diffygion a lleihau gwariant ar arolygu Ansawdd Cymru: gan arwain at arbediad blynyddol o £28,000.

Sut y byddwch yn adeiladu ar yr effaith hon – beth sydd nesaf?

Ailadrodd y gwelliannau ar ein Lansiad nesaf, L461, sydd yn yr arfaeth nawr.



“Roedd y tiwtor, Dave Jones, yn rhoi cyflwyniad gwych bob wythnos, gan addysgu'r offer i ni wella ein cwmni'n barhaus. Mae'n gymhwyster gwych sy'n ein helpu ni a Tenneco. Dysgais lawer trwy wneud prosiect y cwrs mewn amser real i ddatrys materion cyfredol yn ffrwd gwerth FA3. Byddwn yn argymell y cwrs hwn i unrhyw un sy'n fodlon buddsoddi ynddynt eu hunain a gwneud newidiadau cadarnhaol”

Jon Caswell, Tenneco.

Cyn astudio gyda ni, beth a phryd wnaethoch chi astudio ddiwethaf?

Gwnaethom gwrs ON-RAMP (Hyfforddiant Arweinyddiaeth Tenneco yn 2020) ac IOSH yn 2021. Cyn hynny astudiais Reolaeth Busnes yn y Coleg 2012.

Beth oeddech chi'n ei feddwl o'r cwrs?

Gwych, dysgais lawer. Gwnaeth Dave Jones yr hyfforddwr waith gwych yn addysgu ein grŵp mewn technolegau Diwydiant 4.0 a disgyblaethau Six Sigma.

Beth oedd yr her roedd eich prosiect terfynol yn ceisio mynd i'r afael â hi?

Archwiliad Lleihau Wal o Ansawdd ar gyfer meini prawf ymadael ar Lansiad L460.

Beth oedd y broses yr aethoch drwyddi i fynd i'r afael â'r her hon?

DMAIC – pwysigrwydd diffinio'r prosiect a dadansoddi'r data'n gywir cyn dechrau ar y gwaith gwella oedd y cysyniad, yn fy marn i, oedd fwyaf effeithiol. Cyn y cwrs, roeddwn i'n arfer neidio i mewn a dechrau arni.



“Mae wedi bod yn wych addysgu Jon, Luc, Christian a Conor o Tenneco. Maen nhw wedi bod yn frwdfrydig, yn llawn cymhelliant a sbardun ers y diwrnod cyntaf ac mae effaith eu prosiect grŵp wedi bod yn anhygoel. Mae Tenneco fel sefydliad yn frwd dros welliant parhaus ac mae hynny'n amlwg iawn”

Dave Jones, MADE Cymru.

“Mae gweithio gyda'r myfyrwyr wastad yn brofiad dysgu gwych i ni gyd. Mae'r rhaglen hon wedi'i dylunio i gefnogi'r diwylliant gwelliant parhaus drwy ddisgyblaethau cydnabyddedig Six Sigma i wella'r broses ond ychwanegu dimensiwn pellach o dechnolegau Diwydiant 4.0 i reoli'r cymhlethdod sydd gennych ar ôl”

Graham Howe, MADE Cymru.



I gael gwybod mwy am gyrsiau Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0 a Rheolaeth Arloesedd MADE Cymru, ewch i www.madecymru.co.uk

01792 481199

MADE@uwtsd.ac.uk

Ariennir MADE Cymru gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru. Cyflwynir ac ardystir gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.